Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Rob Thomas
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Ionawr 2016

Annwyl Mr Thomas,

**Ymweliad monitro gan Estyn, 16-20 Tachwedd 2015**

Yn dilyn canlyniad yr arolygiad o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mai 2013, nodwyd bod angen i'r awdurdod gael ei fonitro gan Estyn.

Cynhaliwyd yr ymweliad monitro cyntaf o 13-15 Hydref 2014 a chynhaliwyd ymweliad monitro terfynol o 16-20 Tachwedd 2015. Mae'r llythyr hwn yn adrodd am ganlyniad terfynol y monitro ôl-arolygiad gan Estyn.

Arweiniodd Tony Bate AEM dîm o bedwar arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y chwe argymhelliad yn deillio o'r arolygiad.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau ag aelodau etholedig, uwch swyddogion, a staff o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De (CSC), yn ogystal â sampl o benaethiaid a llywodraethwyr. Craffodd y tîm ar ddogfennau a thystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion ers yr arolygiad.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm am eu canfyddiadau wrth yr arweinydd, yr aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau plant ac ysgolion, y rheolwr gyfarwyddwr a'r uwch swyddogion, gan gynnwys y cyfarwyddwr dros dysgu a sgiliau.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad ym mis Mai 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen i'r awdurdod gael ei fonitro gan Estyn mwyach.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/Fax 02920 446448
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

**Argymhelliad 1: Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr awdurdod yw 13.5%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 18.8%. Mae'r lefel hon o gymhwyster yn gosod yr awdurdod yn y 5[ed] safle yng Nghymru allan o'r 22 awdurdod lleol yn 2015; y 1[af] yw'r awdurdod sydd â'r lefel isaf o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer arfarnu deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae perfformiad ysgolion yn yr awdurdod yn y Cyfnod Sylfaen wedi parhau'n gymharol gryf. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant 5 disgwyliedig wedi gwella'n raddol, ac ar gyfradd wella sy'n debyg i gyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl (deilliant 6) wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Adeg yr arolygiad, yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ysgolion islaw'r cyfartaledd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar feincnodau prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru; nid oedd digon o ysgolion naill ai yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch. Yn 2015, cafwyd gwelliant nodedig, ac mae mwyafrif yr ysgolion bellach yn y 50% uwch. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 4 ddisgwyliedig mewn ysgolion yn yr awdurdod wedi gwella ar gyfradd gryfach na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn gyson gryf.

At ei gilydd, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 wedi gwella'n gyflymach na chyfartaledd Cymru. Yn 2012, roedd perfformiad tri chwarter o ysgolion uwchradd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Yn 2015, mae perfformiad mwyafrif yr ysgolion uwchradd uwchlaw'r cyfartaledd erbyn hyn, ac mae hanner yr ysgolion uwchradd yn y 25% uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg.

Ers yr arolygiad, bu gwelliannau yn y rhan fwyaf o ddangosyddion cyfnod allweddol 4. Er enghraifft, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4 wedi gwella'n gyson, a dyma'r ganran uchaf yng Nghymru yn 2015. Mae canran y disgyblion yn yr awdurdod sy'n cyflawni trothwy Lefel 2, gan gynnwys mathemateg a Saesneg neu Gymraeg mamiaith wedi gwella'n gyflymach na chyfartaledd Cymru ers yr arolygiad diwethaf, a dyma oedd yr uchaf ond un yng Nghymru yn 2015. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau cyffredinol hyn, mae perfformiad tair o'r wyth ysgol uwchradd islaw'r cyfartaledd yn 2015 o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, mae Bro Morgannwg wedi bodloni neu ragori ar bron bob un o feincnodau cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad, ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar draws pob sector, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella er 2012, er nad yw bob amser ar yr un gyfradd â'u cyfoedion.  Er 2012, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr awdurdod wedi gwella ar gyfradd gyflymach na pherfformiad eu cyfoedion.  Mae hyn wedi lleihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion.  Fodd bynnag, dros yr un cyfnod yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mae'r duedd o wella ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn llai cyson nag ydyw ar gyfer eu cyfoedion.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched wedi amrywio er 2012.  Yng nghyfnod allweddol 3 a 4, mae perfformiad bechgyn wedi gwella ar gyfradd gyflymach o lawer na merched.  Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched wedi gwella'n gyflymach na bechgyn.

**Argymhelliad 2:  Gwella trylwyredd a lefel yr her a roddir i ysgolion ynglŷn â'u perfformiad ac ansawdd yr arweinyddiaeth**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Adeg yr arolygiad, canfuom nad oedd swyddogion yn arfarnu darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn ysgolion yn ddigon da a'u bod yn dibynnu'n ormodol ar ddata perfformiad i gategoreiddio ysgolion.  Canfuom hefyd fod gormod o amrywiad yn ansawdd eu gwaith ac nid oedd y broses sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr i sicrhau eu bod yn herio ysgolion yn gyson.

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda gyda phenaethiaid, llywodraethwyr a Chonsortiwm Canolbarth y De i sicrhau gwelliannau.  Mae hyn wedi arwain at welliannau targedig a gwerth chweil mewn arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau mewn llawer o ysgolion yn yr awdurdod.

Mae ymgynghorwyr her yn cymryd camau priodol i arfarnu darpariaeth ac arweinyddiaeth yn fwy effeithiol, gan ddefnyddio Fframwaith diwygiedig Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer Her a Chymorth.  Mae categoreiddio ysgolion dros dro yn yr awdurdod yn ddiweddar yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth i sefydlu cyswllt cryfach rhwng ansawdd arweinyddiaeth a safonau.

Mae'r awdurdod yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i Gonsortiwm Canolbarth y De am agweddau ar arweinyddiaeth, fel materion yn ymwneud â rheolaeth ariannol, adnoddau dynol, materion cyfreithiol a llywodraethu.  Mae ymgynghorwyr her yn ystyried y wybodaeth hon wrth arfarnu arweinyddiaeth lle bo'n berthnasol.  Mae'r awdurdod wedi ymateb yn briodol i ddiffygion mewn arweinyddiaeth mewn sawl ysgol ers yr arolygiad.  Cynhelir Cyfarfodydd Cynnydd Ysgolion Unigol rhwng panel o aelodau o'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes a chynrychiolwyr ysgol o ysgolion sy'n achosi pryder.  Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddangos eu gallu i wella.  Mae'r cyfarfodydd hefyd yn galluogi'r panel i gael amcan o lefel ei hyder yng ngallu ysgol i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol o fewn y graddfeydd amser gofynnol.

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn monitro cysondeb y barnau sy'n cael eu llunio gan ymgynghorwyr her yn agos ac yn sicrhau ansawdd yr adroddiadau am ysgolion. Mae uwch swyddogion o'r awdurdod yn defnyddio cyfarfodydd bob pythefnos gydag uwch reolwyr o'r gwasanaeth rhanbarthol i sicrhau ansawdd gwaith ymgynghorwyr her yn briodol.

Adeg yr arolygiad, canfuom nad oedd llywodraethwyr yn cael digon o hyfforddiant i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl i arfarnu a herio ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn eu hysgolion.  Trwy hyfforddiant penodol gan yr awdurdod a thrwy waith ymgynghorwyr her, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth well o ddarpariaeth ac arweinyddiaeth erbyn hyn, ac maent yn fwy hyderus yn eu gallu i herio arweinwyr eu hysgol.  Mae'r awdurdod wedi cryfhau ei broses ar gyfer penodi llywodraethwyr i ysgolion fel bod llywodraethwyr newydd yn cynnig medrau sy'n gwella gallu'r corff llywodraethol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi cyflwyno rhaglen ymsefydlu ar gyfer penaethiaid newydd.  Caiff y penaethiaid hyn eu cynorthwyo'n addas gan fentoriaid profiadol, gyda chyfleoedd i ofyn am gyngor, codi pryderon a mynd i'r afael â materion yn fwy effeithiol.  Ceir rhaglenni arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol ar gyfer penaethiaid presennol erbyn hyn, fel y rhaglen prifathrawiaeth strategol a'r rhaglen arweinyddiaeth ymgynghorol, a ddarperir trwy'r consortiwm.  Yn ychwanegol, ceir ystod o raglenni ar gyfer arweinwyr canol a darpar arweinwyr y dyfodol.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effeithiolrwydd y rhaglenni hyn ar ansawdd cyffredinol arweinyddiaeth mewn ysgolion yn yr awdurdod.

**Argymhelliad 3: Defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella ysgolion sy'n tanberfformio**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i bwerau ei hun yn dda ar y cyfan i wella ysgolion sy'n tanberfformio.

Yn briodol, mae'r awdurdod yn anfon llythyrau gweithredu anffurfiol i'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n achosi pryder cyn cymryd camau gweithredu ffurfiol.  Caiff y llythyrau hyn eu cyhoeddi ar sail ystod o feini prawf, gan gynnwys categoreiddiad cenedlaethol yr ysgol a'i pherfformiad dros gyfnod.  Mae'r broses yn cynnwys aelodau etholedig a Chonsortiwm Canolbarth y De yn addas.  Os nad yw'r ysgol yn dangos gwelliant, cyhoeddir hysbysiadau rhybudd ffurfiol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi anfon hysbysiadau rhybudd ffurfiol i bum ysgol uwchradd.  Mae'r hysbysiadau rhybudd hyn wedi amlinellu pryderon am ddeilliannau dros ddwy i dair blynedd.  Yn y rhan fwyaf o achosion, amlygwyd y pryderon yn ystod arfarniad yr awdurdod ei hun o berfformiad, ac mewn un achos, roedd yn dilyn diffygion a amlygwyd gan Estyn.  Rhoddwyd cymorth ychwanegol i'r ysgolion hyn, ac mewn pedair o'r pum ysgol, roedd hysbysiadau ffurfiol yn dilyn llythyrau anffurfiol gan y cyfarwyddwr.  Roedd yr awdurdod wedi caniatáu digon o amser i ysgolion ddangos gwelliannau cyn cyhoeddi hysbysiad rhybudd ffurfiol.  Yn dilyn hynny, gwnaeth dwy ysgol gynnydd digonol er mwyn gallu

dileu eu rhybuddion ffurfiol. Methodd un ysgol fodloni ei thargedau, a phenododd yr awdurdod ddau lywodraethwr ychwanegol i ddarparu gallu arwain ychwanegol i'r ysgol. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'i bwerau ymyrraeth ffurfiol hefyd i ofyn i'r ysgol hon gydweithio ag ysgol fraenaru mewn awdurdod lleol arall. Dim ond yn ddiweddar y mae'r ddwy ysgol sy'n weddill wedi cael eu hysbysiad rhybudd ffurfiol.

Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi defnyddio'i bwerau ymyrraeth ffurfiol mewn un ysgol gynradd hefyd i benodi dau lywodraethwr ychwanegol. Methodd nodi problemau gyda safonau yn yr ysgol cyn arolygiad gan Estyn. Gosodwyd yr ysgol gan Estyn yn y categori angen gwelliant sylweddol. Ers hynny, mae'r awdurdod wedi gweithredu'n brydlon ac yn bendant, gan weithio'n dda gyda Chonsortiwm Canolbarth y De, i'r graddau bod Estyn wedi tynnu'r ysgol o'r categori hwn o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi bod yn rhy araf yn mynd i'r afael â thanberfformio parhaus mewn ysgol gynradd arall.

Mae aelodau o'r pwyllgor craffu, gyda chymorth gan yr aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau plant ac ysgolion, yn monitro cynnydd yn yr ysgolion hyn yn drylwyr trwy gyfarfodydd panel cynnydd yr ysgol. Mae'r panelau yn pennu p'un a oes gan yr ysgolion drefniadau ar waith i fonitro effaith eu cynlluniau gwella, i'w diwygio fel y bo'n briodol a sefydlu pa gynnydd pellach roedd ei angen. Caiff aelodau olwg cliriach ar gryfderau a gwendidau'r ysgolion hyn, ac o ganlyniad, mae ganddynt rôl gryfach mewn herio tanberfformio.

Mae'r awdurdod wedi ysgrifennu'n anffurfiol hefyd at rai ysgolion eraill lle maent wedi nodi gostyngiad mewn perfformiad neu faterion eraill yn ymwneud â darpariaeth neu arweinyddiaeth i gofnodi eu pryder ac amlinellu disgwyliadau ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 4: Gwneud yn siŵr bod cynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr ac yn gyson ar draws yr holl wasanaethau**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Caiff cynllunio ar gyfer gwella ar lefel gwasanaeth a thîm o fewn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau ei wneud yn systematig, yn gydlynus a chyson.

Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i addysg. Mae'n nodi blaenoriaethau wedi'u diffinio'n dda ar gyfer gwella deilliannau addysg fel bod '*dysgwyr yn cyflawni eu llawn botensial er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd mewn bywyd*'[i]. Eir i'r afael â'r blaenoriaethau hyn ac amcanion corfforaethol cyfatebol yn dda yng nghynlluniau a chamau gweithredu'r gyfarwyddiaeth.

Mae ystod briodol o randdeiliaid yn cyfrannu at ddatblygu'r cynlluniau gwasanaeth a thîm. Trwy ddulliau fel gweithdai adolygu tîm, mae gan swyddogion fwy o berchnogaeth dros amcanion y gyfarwyddiaeth ac maent yn deall yn well y cyfraniad a wna swyddogion a thimau unigol at gyflawni'r nodau hyn.

Mae cynllun y gyfarwyddiaeth yn nodi'n glir ei huchelgais mai '*deilliannau addysg ym Mro Morgannwg yw'r gorau yng Nghymru ac maent yn cyd-fynd â chanlyniadau'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sydd â phroffiliau economaidd gymdeithasol tebyg*'. Caiff prosesau cynllunio eu hategu'n effeithiol trwy gynllun

trosfwaol pedair blynedd a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn cynnwys adolygiad manwl o ddeilliannau'r flwyddyn flaenorol, gydag arfarniad defnyddiol o'r graddau y cyfrannodd camau gweithredu'r gyfarwyddiaeth at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae hyn yn helpu i bennu blaenoriaethau gwella yn y dyfodol.

Mae ystod helaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau yn cefnogi dull y gyfarwyddiaeth yn effeithiol. Ceir dealltwriaeth gadarn o'r blaenoriaethau a'r heriau cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r angen am fwy o effeithlonrwydd wrth gyflwyno gwasanaethau. Caiff camau gweithredu a mentrau eu croesgyfeirio'n eglur at gynlluniau corfforaethol a chynlluniau strategol eraill. Mae cofrestr risg addas yn nodi ystod o risgiau sy'n gysylltiedig â phob amcan gwasanaeth ac yn amlinellu strategaethau penodol i reoli'r risgiau hyn.

Mae'r gostyngiad o chwech i ddau gynllun tîm yn unig wedi helpu i sicrhau cysondeb gwell o ran cynllunio a chyflwyno, ac mae'n cyfrannu'n dda at ddull mwy integredig o fynd i'r afael â blaenoriaethau gwasanaeth. Mae cynlluniau tîm yn dilyn fformat ac arddull gyffredin, ac maent wedi'u strwythuro'n dda o amgylch themâu allweddol. Ceir cyfatebiaeth eglur rhwng cynlluniau tîm ac amcanion a chamau gweithredu'r gyfarwyddiaeth, yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol. Mae cynllun y tîm gwella ysgolion a gwasanaethau cynhwysiant yn amlinellu'n glir y modd y mae gwaith Consortiwm Canolbarth y De yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth. Erbyn hyn, mae'r holl gynlluniau yn cysylltu â'r flwyddyn ariannol, yn hytrach na'r flwyddyn academaidd, sy'n helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol yn unol â blaenoriaethau a nodwyd.

Ceir cysylltiad clir rhwng cynllunio a threfniadau rheoli perfformiad. Caiff swyddogion ar bob lefel eu dwyn i gyfrif yn briodol am roi'r camau hynny y mae ganddynt gyfrifoldeb penodol amdanynt ar waith. Mae hyn yn digwydd, er enghraifft, trwy swyddogaeth graffu'r cyngor, mewn cyfarfodydd misol rhwng swyddogion arweiniol a'u rheolwyr llinell a thrwy adolygiadau rheoli perfformiad blynyddol.

Ceir diwylliant myfyriol o fewn y gyfarwyddiaeth. Mae hyn yn amlwg trwy brosesau sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer monitro cynnydd, a rhoi camau ar waith ac asesu mentrau penodol, er enghraifft trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, adolygiadau parhaus, arfarniadau o effaith a thrwy fecanweithiau adrodd ffurfiol. Mae'r prosesau hyn yn rhoi pwyslais penodol ar bennu blaenoriaethau gwella, dulliau mwy effeithiol a ffrydiau ariannu addas. Mae uwch swyddogion yn parhau i ystyried sut gallant ddatblygu mecanweithiau mwy manwl gywir i arfarnu effaith y camau gweithredu penodol a sicrhau bod cynlluniau a graddfeydd amser yn cyd-fynd yn well ag adolygiadau rheoli perfformiad corfforaethol.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer arfarnu deilliannau mentrau a'u bod yn dangos gwerth da am arian**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr arolygiad yn 2013, mae'r gyfarwyddiaeth dysgu a sgiliau wedi gwella'r modd y mae'n arfarnu deilliannau ei phrosiectau cyfalaf, ei gwasanaethau addysg, a'i mentrau cynorthwyo dysgwyr.

Gall y gyfarwyddiaeth ddangos cysylltiad clir rhwng ei hamcanion strategol a'i blaenoriaethau cyllidebol. Er enghraifft, trwy'r ffaith fod proses y gyfarwyddiaeth i osod cyllideb strategol yn ystyried llai o refeniw, a thrwy'r dulliau rheoli prosiectau ar gyfer prosiectau cyfalaf addysg ar raddfa fawr.

Mae'r gyfarwyddiaeth wedi datblygu templed cyffredin ar gyfer adroddiadau arfarnu blynyddol o ran mentrau a gwasanaethau allweddol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau blynyddol hyn yn arfarnu data deilliannau'n dda, gan gynnwys asesu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno pob maes gwaith. Mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu effaith eu gwaith yn briodol, a ph'un a yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Defnyddir y wybodaeth hon hefyd i lunio barnau gwybodus ynghylch pa fentrau y dylid eu cefnogi, neu'u parhau, ac y gallai fod angen eu newid, eu lleihau, neu'u datgomisiynu.

Mae ffocws y gyfarwyddiaeth ar ddangos effaith ei gwaith ar ddysgwyr wedi helpu iddi ffurfio'r gwasanaeth a ddarperir gan Gonsortiwm Canolbarth y De. O ganlyniad, caiff yr awdurdod ei gynnwys yn uniongyrchol mewn sicrhau ansawdd gwaith yr ymgynghorwyr her, a'u rhaglennu gwaith a'u hamcanion perfformiad. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod i sicrhau bod gwaith Consortiwm Canolbarth y De yn darparu yn well cymorth ac ymyriadau yn unol ag anghenion yr awdurdod.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dewis prynu ystod o wasanaethau cymorth corfforaethol. Mae'r bwrdd safonau, sy'n cynnwys swyddogion a chynrychiolwyr o ysgolion, wedi arfarnu ansawdd y gwasanaethau hyn yn dda ar y cyfan. Caiff cytundebau lefel gwasanaeth eu diweddaru bob blwyddyn, ac mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth glir o gost darparu'r gwasanaethau hyn i ysgolion.

Ceir gostyngiad rheoledig effeithiol a pharhaus ym malansau mawr ysgolion, sydd bellach yn is na chyfartaledd Cymru.

**Argymhelliad 6: Cryfhau trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu lles plant a phobl ifanc**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Yn dilyn yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi ymateb yn dda i'r argymhelliad hwn.

Mae strategaeth lles mewn addysg yr awdurdod bellach wedi'i hymgorffori'n dda a chafodd ei diwygio i ddarparu cyfeiriad diweddaredig am y tair blynedd nesaf, sef 2015-2018. Mae'r grŵp monitro ac arfarnu yn gyrru gweithrediad y strategaeth hon yn effeithiol.

Mae'r awdurdod yn cofnodi data a gwybodaeth am les pobl ifanc o nifer o ffynonellau yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys data ysgol, ymatebion disgyblion i arolygon lles, canlyniadau ymgynghoriadau gyda phobl ifanc, a thystiolaeth o wasanaethau cwnsela yn yr ysgol, y gwasanaethau troseddau ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill. Mae'r gyfarwyddiaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio cynllunio gwasanaethau, gan gynnwys gwaith ymgynghorwyr her a swyddogion gwella ysgolion. Mae'r awdurdod wedi datblygu pecynnau data defnyddiol iawn ar

gyfer ysgolion, sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol, fel data lles a data perfformiad ysgolion. Mae'r pecynnau'n cynnwys dadansoddiad o'r data yn ogystal â syniad ynglŷn â'r 'materion pwysig i'w harchwilio'. Mae'r pecynnau hyn yn llywio gwaith ysgolion, swyddogion cynhwysiant ysgolion ac ymgynghorwyr her yn llwyddiannus.

Mae'r awdurdod yn monitro presenoldeb yn effeithiol, ac mae wedi defnyddio'i wybodaeth a'i ddadansoddi yn dda i ddatblygu strategaethau gydag ysgolion unigol, swyddogion cynhwysiant ysgolion ac ymgynghorwyr her i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Mae'r awdurdod wedi defnyddio menter ranbarthol 'Callio' yn dda, i ddarparu dull strwythuredig o nodi a rheoli presenoldeb gwael gydag ysgolion, disgyblion a theuluoedd. O ganlyniad, mae presenoldeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yr awdurdod wedi gwella. Yn 2014-2015, presenoldeb mewn ysgolion uwchradd oedd yr uchaf yng Nghymru.

Mae ysgolion a swyddogion wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i leihau cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol tymor hwy o 6 diwrnod neu fwy o ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, ers yr arolygiad yn 2013, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai o ysgolion uwchradd wedi cynyddu. Er bod yr awdurdod yn deall y rhesymau dros hyn ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag ef, mae'r gwaharddiadau hyn yn parhau i fod yn uchel, yn enwedig mewn tair ysgol.

Mae'r awdurdod a'i bartneriaid wedi gwella'r modd y maent yn olrhain, nodi a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Mae'r dull partneriaeth hwn hefyd wedi gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyfnewid rhwng rhanddeiliaid ynglŷn â pha mor dda y mae pobl ifanc yn ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. O ganlyniad, mae partneriaid yn nodi'n gyflymach y rhai sy'n tynnu'n ôl ac yn olrhain yn well y bobl ifanc hynny y mae angen cymorth a chefnogaeth er mwyn cynnal eu diddordeb. Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gostwng.

Ers yr arolygiad yn 2013, mae'r gyfarwyddiaeth wedi diwygio'i threfniadau ar gyfer rheoli ac adrodd ar ddiogelu i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth addysg yn dod o dan yr un trefniadau monitro, a gydag arfer gyson.

**Y camau nesaf**

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn Estyn yn parhau â'u gwaith â'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac at Archwilydd Cyffredinol Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Archwilydd Cyffredinol

---

[i] Cynllun Gwasanaeth Dysgu a Sgiliau (Cyfarwyddiaeth), 2015-2019, Bro Morgannwg